Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

**EICH CYNGOR arleinamdani**
www.sirgar.llyw.cymru

**YOUR COUNCIL doitonline**
www.carmarthenshire.gov.wales

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP

Hysbysir trwy hyn yn unol ag Adran 43 ac Adran 41 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côd Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig y canlynol:

1. Cau Ysgol Babanod Llangennech, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (a gynhelir gan y Cyngor ar hyn o bryd) ar 31 Awst 2017;
2. Cau Ysgol Iau Llangennech, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (a gynhelir gan y cyngor ar hyn o bryd) ar 31 Awst 2017;
3. Sefydlu ysgol Cyfrwng Cymraeg newydd (yr "Ysgol Newydd") a fydd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar safleoedd ac yn adeiladau presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed o 1 Medi 2017.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion hyn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar www.sirgar.llyw.cymru

O 1 Medi 2017 ymlaen, yn amodol ar ddewisiadau a fynegai gan rieni, bwriedir i'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech a'r rhai a fyddai, oni bai am y cynnig hwn, wedi disgwyl mynychu'r ysgolion hynny – gael eu haddysg yn yr "Ysgol Newydd". Dalgylchoedd presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech fydd dalgylch yr "Ysgol Newydd".

Ni fwriedir i'r trefniadau derbyn i'r "Ysgol Newydd" ddarparu ar gyfer dewis disgyblion ar sail dawn na gallu (bandio disgyblion).

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ysgol gynradd gymunedol.

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yr Awdurdod Derbyn ar gyfer yr "Ysgol Newydd".

Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion 4/5 oed yn yr ysgol newydd yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y bydd y cynigion hyn yn cael eu gweithredu fydd 60. Capasiti'r ysgol ar gyfer disgyblion 3-11 oed ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 461. Bydd 60 o leoedd meithrin.

Categori Iaith yr ysgol newydd arfaethedig, fel y'i diffiniwyd yn nogfen wybodaeth rhif: 023/2007 Llywodraeth Cymru, "Diffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth Gymraeg", fydd Cyfrwng Cymraeg.

Darperir cludiant i'r "Ysgol Newydd" yn unol â pholisi Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Bydd y trefniadau ar gyfer trosglwyddo i Ysgolion Uwchradd yn parhau heb eu newid.

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 2 Hydref 2016, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mr Robert Sully, Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu gellir anfon neges e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk

Llofnodwyd: Mr Robert Sully
Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiedig: 5 Medi 2016

## NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn eglurder)

1. Bwriad yr awdurdod yw ad-drefnu addysg gynradd yn ardal Llangennech a chreu un ysgol gynradd gymunedol newydd, i gymryd lle Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech. Bydd yr ysgol newydd ar safleoedd ac yn adeiladau presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.
2. Bwriad yr Awdurdod yw cynnwys darpariaeth feithrin yn yr ysgol newydd a darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

   Nid yw cael lle yn y meithrin yn golygu bod gan y plentyn hawl awtomatig i le llawn-amser yn yr ysgol a bydd rhaid cyflwyno cais newydd.

   Mae gan ddisgyblion meithrin yr hawl i gael addysg ran-amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Y diffiniad o ran-amser yw 5 sesiwn yr wythnos yn y bore neu'r prynhawn. Bydd gan ddisgyblion meithrin yr hawl i fynychu'r ysgol yn llawn-amser ar ddechrau'r tymor cyn eu pen-blwydd yn 4 oed.
3. Y categori iaith ar gyfer Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yw Dwy Ffrwd. Bwriad yr Awdurdod yw sefydlu'r ysgol newydd yn ysgol categori iaith Cyfrwng Cymraeg.

   Mae dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru "Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" yn nodi disgrifiadau a chategorïau o ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysgu a dysgu. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad canlynol:

   http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/defining-schools-welsh-medium/?lang=cym
4. Mae'r polisi cyfredol ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cadarnhau y bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth cludiant yn achos disgyblion sy'n bodloni pob un o'r meini prawf canlynol:-
   (a) yn byw yn Sir Gaerfyrddin;
   (b) maent wedi cyrraedd oed ysgol gorfodol;
   (c) maent yn mynychu'r ysgol agosaf neu'r ysgol a ddynodwyd gan yr Awdurdod Lleol; ac
   (d) maent yn byw ymhellach na'r pellter cerdded statudol o'r ysgol. Diffinir y pellter cerdded statudol fel 2 filltir ar gyfer ysgolion cynradd.

   Cyfrifoldeb rhieni yw trefnu a thalu am gludo disgyblion i'r ysgol os nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim.
5. Bydd Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn cau ar 31 Awst 2017.

**Bydd yr ysgol gynradd gymunedol Cyfrwng Cymraeg newydd sy'n darparu ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed yn cael ei sefydlu o 1 Medi 2017.**

CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

County Hall, Carmarthen, SA31 1JP

Notice is hereby given in accordance with Section 43 and Section 41 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) and the School Organisation Code that Carmarthenshire County Council (the Council) having consulted such persons as required, propose the following:

1. To discontinue Llangennech Infants School, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (currently maintained by the Council) on 31 August 2017;
2. To discontinue Llangennech Junior School, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (currently maintained by the Council) on 31 August 2017;
3. To establish a new Welsh Medium (WM) school (the "New School") to be maintained by Carmarthenshire County Council at the existing sites and buildings of the current Llangennech Infants and Llangennech Junior schools for boys and girls aged 3-11 from 1 September 2017.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish these proposals. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and the views of Estyn is available on www.carmarthenshire.gov.wales

From 1 September 2017, subject to any expression of parental preference, it is proposed that those pupils registered at Llangennech Infants School and Llangennech Junior school and who, but for this proposal, would have expected to attend those schools will be educated at the "New School". The existing catchment areas of Llangennech Infants School and Llangennech Junior School will become the catchment area of the "New School".

It is not intended that admission arrangements to the "New School" will make any provision for selection of pupils by aptitude or by ability (pupil banding).

The proposed new school will be a community primary school.

Carmarthenshire County Council will be the admission authority for the "New School".

The admission number (AN) for pupils aged 4/5 at the new school in the first school year in which the proposals have been implemented will be 60. The capacity of the school for pupils aged 3-11 once the proposal is implemented will be 461. There will be 60 nursery places.

The language category of the proposed new school, as defined by "Defining schools according to Welsh medium provision", Welsh Government Information document No: 023/2007 will be Welsh Medium.

Transport to the "New School" will be provided in accordance with Carmarthenshire County Council's home to school transport policy.

Transfer to Secondary School will remain as per current arrangements.

Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by 2 October 2016, any person may object to these proposals. Objections should be sent to Mr Robert Sully, Director of Education and Children's Services, Carmarthenshire County Council, Building 2, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, SA31 3HB or e-mail to DECMEP@carmarthenshire.gov.uk

Signed: Mr Robert Sully
Director of Education and Children's Services
For Carmarthenshire County Council

Dated: 5 September 2016

## EXPLANATORY NOTE

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

1. It is the Authority's intention to re-organise primary education in the Llangennech area and create one new community primary school, to replace the existing Llangennech Infants and Llangennech Junior schools. The new school is to be located on the current sites and buildings of the existing Llangennech Infants and Llangennech Junior schools.
2. It is the Authority's intention to include nursery provision at the new school and to provide education to pupils between the ages of 3-11.

   Admission to the nursery does not automatically entitle a child to a full-time place in the school and a new application must be made.

   Nursery pupils are entitled to part-time education from the beginning of the term following their third birthday. Part-time is defined as 5 morning or afternoon sessions per week. Nursery pupils will be entitled to attend on a full-time basis at the start of the term preceding their 4th birthday.
3. The language category of both the current Llangennech Infants and Llangennech Junior Schools is categorised as Dual Stream. It is the Authority's intention to establish the new school as a Welsh Medium (category WM) language category school.

   The Welsh Government information document "Defining schools according to Welsh medium" sets out descriptions and categories of schools according to the amount of Welsh used in teaching and learning. The document is available on the Welsh Government website at the following address:

   http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/defining-schools-welsh-medium/?lang=en
4. Current home to school transport policy confirms that assistance with transport will be provided by the Authority for pupils who meet each of the following criteria:-
   (a) are residents of Carmarthenshire;
   (b) are of compulsory school age;
   (c) attend the nearest or the school designated by the Local Authority; and
   (d) who reside over the statutory walking distance from the school. The statutory walking distance is defined as 2 miles for primary schools.

   The arrangement and cost of transport to school for pupils who do not qualify for free transport is a parental responsibility.
5. The discontinuation of both Llangennech Infants and Llangennech Junior Schools will take place on 31 August 2017.

**The new Welsh Medium, community primary school which caters for boys and girls between the ages of 3-11 years old will be established from 1 September 2017.**